Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn yr
Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 3 Chwefror 2020 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape a Heather Williams.

64. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

65. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

66. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020 yn gywir.*

67. MATERION YN CODI
Holodd yr aelodau am yr ad-daliad am y goeden Nadolig a ddifrodwyd. Esboniodd y Clerc for anfonebau wedi'u derbyn i symud y goeden wedi'i difrodi ymaith, a thynnu'r goleuadau oddi arni a'u hailosod ar y goeden newydd, a bod y rhain wedi'u trosglwyddo i'r heddlu. Parhau i aros am anfoneb gan y cwmni a ddarparodd y goeden newydd.

68. GOLEUADAU NADOLIG AR GYFER 2020 A'R BLYNYDDOEDD NESAF
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y trefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2020. Roedd yr aelodau'n awyddus i barhau gyda'r un goleuadau am 12 mis arall, yn cynnwys gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw'r goleuadau, ar gost o £3,157.71 yn cynnwys TAW.
PENDERFYNWYD*: parhau gyda'r un goleuadau Nadolig yn 2020 ar gost o £3,157.71 inclusive VAT.*

69. TÎM TREF TACLUS
Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Tîm Tref Taclus yn cael ei ail-lansio yn ystod wythnos Dyfodol Rhuthun, gan sefydlu calendr cyfarfodydd am y 12 mis nesaf. Holodd yr aelodau a fyddai'r ymgyrch casglu sbwriel blynyddol y dref yn parhau eleni. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Gareth Jones, Cadw Cymru'n Daclus, i drafod dyddiad addas.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

70. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 2 Mawrth 2020 am 7:00pm.*